

Erthygl 4 Y Cyngor Llawn

4.1 Ystyron

- (a) **Y Fframwaith Polisi a Chyllideb**
Ystyr y fframwaith polisi a chyllideb yw'r cynlluniau a'r strategaethau canlynol a strategaethau eraill y gellir penderfynu arnynt o bryd i'w gilydd, fel sy'n briodol, i'w mabwysiadu gan y Cyngor:-
- Y Strategaeth Gorfforaethol (gan gynnwys Amcanion Llesiant)
Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Cynlluniau ac addasiadau sydd, at ei gilydd, yn ffurfio'r Cynllun Datblygu Lleol
Cynllun Trafnidiaeth Lleol
Cynllun yr Iaith Gymraeg (gan gynnwys Safonau'r Gymraeg
- (b) **Cyllideb.** Mae'r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, sail treth y cyngor, pennu treth y cyngor, a phenderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli gofynion y Cyngor o ran benthyca, rheoli ei wariant cyfalaf a gosod terfynau ar drosglwyddo arian.
- (c) **Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai.** Mae Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai yn golygu cymeradwyo neu fabwysiadu ceisiadau (boed hynny mewn ffurf drafft ai peidio) i Lywodraeth Cymru i gymeradwyo rhaglen o waredu 500 neu fwy o dai i berson o dan Ddeddf Diwygio Prydles, Tai a Datblygiad Trefol 1993 neu i waredu tir a ddefnyddir i bwrpasau preswyl lle bo angen cymeradwyaeth o dan adrannau 32 neu 43 o Ddeddf Tai 1985.

4.2 Swyddogaethau'r Cyngor Llawn

Bydd y Cyngor yn ymarfer y swyddogaethau canlynol:-

- (a) mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad;
- (b) cymeradwyo neu fabwysiadu'r Fframwaith Polisi a Chyllideb, awdurdodi gwneud cais i Drosglwyddo Tir ar gyfer Tai o dan baragraff 4(5) o'r Rheoliadau, a phennu Rhenti Tai;
- (c) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn frys a gynhwysir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Cyflawni Swyddogaethau) a/neu (Benderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (fel y'u newidir o bryd i'w gilydd), gwneud penderfyniadau am unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth weithredol a gwmpasir gan y Fframwaith Polisi neu'r Gyllideb lle mae'r sawl sy'n llunio penderfyniadau o blaid gwneud hynny mewn dull a fyddai'n groes i'r Fframwaith Polisi neu yn groes i'r Gyllideb/heb fod yn gwbl unol â'r Gyllideb;
- (d) penodi'r Arweinydd;
- (e) penderfynu pa Bwyllgorau a Phaneli Ymgynghorol ac ati a sefydlir, cylch gwaith pob corff, nifer yr aelodau (sydd â phleidlais a heb pleidlais) fydd ar bob un ohonynt, a gwneud y penodiadau angenrheidiol i'r cyrff hyn;

- (f) cytuno â'r cylch gwaith a/neu ei ddiwygio ar gyfer pwyllgorau, gan benderfynu ar eu haelodaeth a gwneud penodiadau iddynt;
- (g) penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol oni bai fod y penodiad yn swyddogaeth weithredol neu wedi ei ddirprwyo gan y Cyngor;
- (h) mabwysiadu cynllun lwfansau i Aelodau;
- (i) newid enw'r ardal, rhoi teitl henadur anrhydeddus neu dderbyn rhyddfrefniwr anrhydeddus;
- (j) penodi'r Prif Weithredwr, a dynodi'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151;
- (k) gwneud, newid, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau a hyrwyddo neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu Fesurau personol;
- (l) mabwysiadu Côt Ymddygiad ar gyfer yr Aelodau;
- (m) yr holl swyddogaethau a nodwyd yn Nhabl 1 o Ran 3 o'r Cyfansoddiad hwn
- (n) gweithredu'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud â dewis lleol a gyflwynir yn nhabl 2 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad hwn y penderfyna'r Cyngor y dylid eu cyflawni ganddo ef ei hun yn hytrach na chan y Cabinet; ac nad ydynt wedi eu dirprwyo i unrhyw un o'i bwyllgorau nac i'w swyddogion;
- (o) gwneud penderfyniadau ar swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Cabinet ac nad ydynt wedi'u dirprwyo gan y Cyngor i bwyllgorau na swyddogion. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - (i) Pŵer i gyflwyno cynigion i Lywodraeth Cymru ar gyfer Gorchymyn o dan Adran 10 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000;
 - (ii) Pŵer i newid enw cymuned;
 - (iii) Pŵer i lunio rheolau gweithdrefn;
- (p) cymeradwyo dirprwyo swyddogaethau anweithredol i bwyllgorau a swyddogion;
- (q) pob mater arall y mae'n rhaid, yn ôl y gyfraith, eu neilltuo ar gyfer y Cyngor;
- (r) bod yn gyfrwng lle gall Aelodau ofyn cwestiynau ar faterion sy'n berthnasol i faes gwaith y Cyngor a dod â chynigion gerbron ar gyfer eu trafod;
- (s) derbyn adroddiadau oddi wrth bwyllgorau ar faterion a ddirprwywyd iddynt a rhoi cyfle i aelodau ofyn cwestiynau ar yr adroddiadau hynny;
- (t) derbyn a chadarnhau neu wrthod argymhellion pwyllgorau ar swyddogaethau anweithredol nad ydynt o fewn eu dirprwyaeth neu y mae'r Pwyllgor wedi eu cyfeirio at y Cyngor am benderfyniad, er mwyn galluogi'r Aelodau i ofyn cwestiynau, cynnig gwelliannau, neu i wneud penderfyniad neu benderfyniadau arnynt sydd yn eu barn hwy yn briodol;
- (u) cymeradwyo'r datganiad tâl blynyddol;
- (v) penderfynu ar lefel y cyflog, ac ar unrhyw newid yn y lefel honno, sydd i'w thalu i brif swyddog.
- (w) cymeradwyo ceisiadau rhannu swydd gan Gadeirydd y Cyngor, Is-gadeirydd y Cyngor, Aelod llywyddol, Dirprwy Aelod llywyddol, Cadeirydd Pwyllgor, Is-gadeirydd Pwyllgor, Cadeirydd neu Is-gadeirydd Is-bwyllgor, dirprwy faer mewn gweithrediaeth maer a chabinet, pan ddaw'r rheoliadau i rym.

4.3 Cyfarfodydd y Cyngor

Ceir tri math o gyfarfod y Cyngor:-

Y cyfarfod blynyddol;
Cyfarfodydd cyffredin;
Cyfarfodydd arbennig.

ac fe'u cynhelir yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

4.4 Cyfrifoldeb am Swyddogaethau

Bydd y Cyngor yn cynnal y tablau yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn sy'n cyflwyno'r cyfrifoldebau am swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Cabinet.